# A469 HIGHWAY IMPROVEMENTS

## KEEPING YOU UPDATED

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Team Caerphilly
**Better Together**

APRIL 2023 - ISSUE 1

**This is the first in a series of newsletters distributed by Caerphilly county borough council to keep residents and businesses in the Upper Rhymney Valley updated about plans to improve the A469 between Pontlottyn and New Tredegar.**



The road at **Troedrhiwfuwch** has been impacted by significant ground movement following an initial landslip back in 2014. Single lane traffic restrictions have been in place since 2020, causing disruption and inconvenience to the local community.

The council has undertaken a lot of preliminary works over recent years and further investigation and design work is now required. This will culminate in a final design and selection of a contractor to undertake the works necessary to fully re-open the road.

The council has been lobbying Welsh Government over recent years and a report published in February indicated that funding will be made available for an improvement scheme - although at this stage we do not have the full level of detail in relation to the funding package from Welsh Government.

This week (Wed 5 April) the council's **Cabinet approved funding of £935,000** to progress detailed design and budget estimates for the works. This will allow the initial monitoring and design stages of the project to progress at pace over the coming months while we await the announcement from Welsh Government.

**If the funding bid is unsuccessful, the Cabinet will seek to fund the necessary improvements to this key strategic route, via other funding sources.**

**Once funding is secured for the full scheme, it is anticipated that improvement works will commence in 2024.**

Issues with ground movement continue to present problems for the integrity of the road surface, but we wish to reassure residents and motorists that there is no imminent risk to highway users. Unfortunately, the traffic signals will remain in place for some time yet and the site will be subject to regular and on-going monitoring to ensure that the road remains safe.

**Further updates will be circulated to residents and businesses over the coming months as the plans progress.**




**Leader of Council, Cllr Sean Morgan** welcomed the news, "The decision taken by the cabinet demonstrates our commitment to resolve this long-standing issue, which is having a detrimental impact on so many people in the surrounding community."

"We are now seeking urgent clarity from Welsh Government about the level of funding being made available to enable us to move this much-needed project forward. This newsletter is part of our commitment to keeping you informed and updated at every stage of the process."

**If you have any questions, queries or concerns please contact crm@caerphilly.gov.uk or 01443 866511.**

# GWELLIANNAU I BRIFFORDD YR A469

## RHOI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF I CHI

Tîm Caerffili
Yn Well gyda'n Gilydd

EBRILL 2023 - RHIFYN 1

**Dyma'r cyntaf mewn cyfres o gylchlythyrau a fydd yn cael eu dosbarthu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion a busnesau Cwm Rhymni Uchaf am gynlluniau i wella'r A469 rhwng Pontlotyn a Thredegar Newydd.**



Mae'r ffordd yn **Nhroedrhiw'r-fuwch** wedi'i heffeithio gan symudiad tir sylweddol yn dilyn tirlithriad cychwynnol yn ôl yn 2014. Ers 2020, mae cyfyngiadau traffig un lôn wedi bod yn eu lle, gan achosi aflonyddwch ac anghyfleustra i'r gymuned leol.

Mae'r cyngor wedi gwneud llawer o waith rhagarweiniol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae angen ymchwilio ymhellach a gwaith dylunio bellach. Bydd hyn yn arwain at ddyluniad terfynol a dewis contractwr i wneud y gwaith angenrheidiol i ailagor y ffordd yn llawn.

Mae'r Cyngor wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd adroddiad a gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror yn nodi y bydd cyllid ar gael ar gyfer cynllun gwella er, ar hyn o bryd, nid oes gennym ni'r lefel lawn o fanylion mewn perthynas â'r pecyn ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Yr wythnos hon (Mercher 5 Ebrill), cymeradwyodd **Cabinet y Cyngor gyllid o £935,000** i symud ymlaen â dyluniad manwl ac amcangyfrifon cyllideb ar gyfer y gwaith. Bydd hyn yn caniatáu i gamau monitro a dylunio cychwynnol y prosiect symud ymlaen yn gyflym dros y misoedd nesaf wrth i ni aros am y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.

Croesawodd **Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Sean Morgan,** y newyddion, "Mae penderfyniad y Cabinet yn dangos ein hymrwymiad ni i ddatrys y mater hirsefydlog hwn sy'n cael effaith andwyol ar gynifer o bobl yn y gymuned gyfagos.

"Rydyn ni nawr yn ceisio eglurder brys gan Lywodraeth Cymru ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael i'n galluogi ni i symud y prosiect hwn, sydd mawr ei angen, yn ei flaen. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o'n hymrwymiad ni i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar bob cam o'r broses."

**Os bydd y cais am gyllid yn aflwyddiannus, bydd y Cabinet yn ceisio ariannu'r gwelliannau angenrheidiol i'r llwybr strategol allweddol hwn drwy ffynonellau cyllid eraill.**

**Unwaith y bydd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y cynllun llawn, mae disgwyl y bydd y gwaith gwella yn dechrau yn 2024.**

Mae problemau gyda symudiad tir yn parhau i achosi problemau i gyfanrwydd wyneb y ffordd, ond rydyn ni'n dymuno sicrhau trigolion a modurwyr nad oes risg ar fin digwydd i ddefnyddwyr y briffordd. Yn anffodus, bydd y goleuadau traffig yn aros yn eu lle am beth amser eto a bydd y safle yn destun monitro rheolaidd a pharhaus i sicrhau bod y ffordd yn aros yn ddiogel.

**Bydd diweddariadau pellach yn cael eu dosbarthu i drigolion a busnesau dros y misoedd nesaf wrth i'r cynlluniau fynd rhagddyn nhw.**

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â RhPC@caerffili.gov.uk ar 01443 866511.**